

## **Ymateb Ysgrifenedig i Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg gan Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau**

---

Ym mis Ebrill 2010 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg â'r nod o wella statws a chynllunio addysg cyfrwng Cymraeg, a gwella safonau yn y Gymraeg fel pwnc (iaith gyntaf ac ail iaith). Roedd y statws yn mynegi gweledigaeth Llywodraeth Cymru:

“Cael system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n cyrraedd ein cymunedau amrywiol ac yn eu hadlewyrchu ac sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefnidir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.”

Mae'r Strategaeth yn cynnwys targedau penodol pum mlynedd a thargedau dangosol deng mlynedd yn seiliedig ar ddeilliannau. Yna byddai cynnydd diriaethol yn erbyn y targedau hyn yn cael ei fesur mewn system gynllunio fwy effeithiol, atebol a chydlynol. Elfen ganolog o'r system gynllunio hon yw'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Roedd y Cynlluniau Strategol cyntaf, a baratowyd gan awdurdodau lleol ac a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru o 2012 ymlaen, ar sail anstatudol. O ganlyniad, ni allai Gweinidogion Cymru eu cymeradwyo, eu haddasu na'u gwrthod yn ffurfiol gan nad oedd unrhyw ddarpariaethau statudol ar waith i'w galluogi i wneud hynny. Fodd bynnag, cyflwynodd Llywodraeth Cymru adborth manwl i awdurdodau lleol ynghyd â thrafodaethau wyneb yn wyneb am y Cynlluniau. Ymatebodd yr awdurdodau lleol yn ffafriol i'r broses hon gan ddiwygio eu Cynlluniau Strategol yn unol â hynny. Roedd hyn yn baratoad defnyddiol ar gyfer dyfodiad Cynlluniau Strategol statudol yn dilyn pasio Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Yn gryno, mae'n ddyletswydd ar awdurdod lleol i baratoi cynllun sy'n egluro sut y bydd yn gwella'r modd y mae'n cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg, a gwella safonau, ynghyd â'i dargedau ar gyfer gwella ac adroddiadau ar gynnydd. Mae'r Ddeddf hefyd yn egluro'r trefniadau y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu gwneud o ran ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch y Cynllun, ei gyflwyno i Weinidogion Cymru ac yna gyhoeddi'r Cynllun Strategol cymeradwy.

Swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chynlluniau Strategol yw cymeradwyo cynllun fel y'i cyflwynwyd, ei gymeradwyo gydag addasiadau, neu ei wrthod a pharatoi cynllun arall, sydd i'w drin fel cynllun cymeradwy'r awdurdod. Mewn achos lle bydd Gweinidogion Cymru'n cynnig addasu neu wrthod cynllun, rhaid iddynt ymgynghori â'r awdurdod lleol. Yn ymarferol, mae'r ymgynghori hwn wedi bod ar ffurf llythyr ffurfiol yn amlinellu'r addasiadau arfaethedig, ac mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymateb iddo o fewn 14 diwrnod.

Caiff darpariaethau Deddf 2013 eu hamlygu ymhellach gan Reoliadau Cynlluniau Strategol ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013. Yn gryno, mae'r rheoliadau hyn yn egluro trefniadau manylach ar gyfer cynnal asesiad o

addysg cyfrwng Cymraeg (i fesur y galw), hyd y cynllun, ei ffurf a'i gynnwys, ei gyflwyno i Weinidogion Cymru, amseru a dull cyhoeddi, darpariaethau pellach o ran ymgynghori, ac adolygu'r cynllun. Hefyd ceir manylion pellach am y materion a ddylai gael sylw yn y cynllun.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol am gynnwys y Cynllun Strategol sy'n adlewyrchu gofynion y rheoliadau a blaenoriaethau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae'r Cynlluniau, felly, yn cwmpasu saith maes/deilliant eang:

**Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**

Ymhlith y materion y mae'n rhaid i awdurdodau lleol fynd i'r afael â nhw mae cynlluniau i gynyddu'r niferoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg; y prosesau ar gyfer mesur galw am ofal plant a darpariaeth addysg statudol cyfrwng Cymraeg; cysylltiadau â rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain; trefniadau ar gyfer cynlluniau trochi a hwyrddyfodiaid; sefydlu Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg; gwybodaeth i rieni; a sut mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd dan adran 10 Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i hyrwyddo mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd**

Mae'r deilliant hwn yn canolbwyntio ar y trefniadau ar gyfer cynyddu'r ganran o ddisgyblion Blwyddyn 9 a gaiff eu hasesu yn Gymraeg fel iaith gyntaf ynghyd â datblygu trefniadau trosglwyddo mwy effeithiol o'r blynyddoedd cynnar/gofal plant hyd at Gyfnod Allweddol 4 gyda phwyslais penodol ar ddilyniant ieithyddol.

**Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr rhwng 14 ac 16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg**

**Deilliant 4: mwy o fyfyrwyr rhwng 16 ac 19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith**

Caiff y deilliannau hyn eu hystyried gyda'i gilydd. Yn achos Deilliant 3 mae'r ffocws ar gynyddu'r ganran o fyfyrwyr ym Mlwyddyn 11 sy'n astudio am 5 neu ragor o gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn achos Deilliant 4 mae'r ffocws ar 2 bwnc neu ragor drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn y ddau achos, disgwylir i awdurdodau lleol egluro'r modd y maent yn cefnogi ysgolion i gynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n dewis astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, a'r modd y maent yn gweithio gydag eraill e.e. Rhwydweithiau 14-19 a Fforymau Rhanbarthol.

**Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg**

Y prif bwyslais yn y fan hon yw safonau - llythrennedd a rhifedd, a pherfformiad yn y Gymraeg fel iaith gyntaf a'r Gymraeg fel ail iaith mewn asesiadau statudol athrawon ac arholiadau allanol ar draws y Cyfnodau Allweddol. Disgwylir i awdurdodau lleol osod targedau i bob un. Disgwylir i awdurdodau lleol hefyd adrodd ar sut y byddant yn lleihau'r ganran o fyfyrwyr na chânt eu cyflwyno am arholiad allanol yn y Gymraeg fel ail iaith ar ddiwedd

Cyfnod Allweddol 4. Yn ogystal, gofynnir i awdurdodau lleol amlinellu'r modd y maent yn annog y defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth. Dyma'r Deiliant y mae'r consortia rhanbarthol yn cyfrannu fwyaf ato.

### **Deiliant 6: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol**

Un o'r materion y mae angen i awdurdodau lleol eu hystyried yw'r modd y maent yn asesu anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cyfrwng Cymraeg, y graddau y gallant gynnig gwasanaethau a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg, a'r strategaethau ar gyfer pontio unrhyw fylchau rhwng anghenion a ddynodir a'r ystod o wasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

### **Deiliant 7: Cynllunio'r Gweithlu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus**

Mae hwn yn ymwneud yn bennaf â strategaethau ar gyfer sicrhau niferoedd digonol o ymarferwyr gyda'r sgiliau ieithyddol a methodolegol priodol i gyflenwi addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys defnyddio Cynllun Iaith Gymraeg Sabothol Llywodraeth Cymru.

Cyflwynwyd y Cynlluniau Strategol statudol cyntaf yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2014 a 2017 i Weinidogion Cymru ym mis Rhagfyr 2013 (yn ôl gofynion statudol). Cymeradwywyd 3 Chynllun fel y'i cyflwynwyd a chymeradwywyd 19 o Gynlluniau gydag addasiadau.

Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, erbyn 20 Rhagfyr bob blwyddyn ar yr hwyraf, adolygu ei gynnydd yn erbyn y targedau yn ei Gynllun cymeradwy a chyflwyno unrhyw Gynllun diwygiedig i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Mae swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chynllun diwygiedig yn gyfyngedig i gymeradwyo fel y'i cyflwynir neu gymeradwyo gydag addasiadau. Cymeradwywyd 5 fel y'i cyflwynwyd a 17 gydag addasiadau.

Yn unol â Rheoliadau 2013 ymgwymerodd awdurdodau lleol ag adolygiad pellach o'u cynnydd yn erbyn y targedau a chyflwyno'u Cynlluniau diwygiedig i Weinidogion Cymru erbyn 20 Rhagfyr 2015. Mae hyn yn cynnig cyfle pellach i herio awdurdodau lleol ar weithrediad cynlluniau unigol a'u cynnydd parhaus at fodloni eu targedau.

Mae awdurdodau lleol wedi cael tair blynedd i ddatblygu a mireinio eu Cynlluniau Strategol ond mae'r graddau y mae cymeradwyaeth y Gweinidogion wedi galw am addasiadau'n awgrymu bod peth ffordd i fynd cyn iddynt fod wedi'u gwreiddio'n ddigonol ym mhrosesau'r awdurdodau lleol fel y bônt yn cyfrannu'n fwy effeithiol at dargedau a deilliannau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Llywodraeth yn ystyried bod cyflwyno'r Cynlluniau Strategol yn elfen bwysig wrth greu'r system sydd ei hangen i wella cynllunio a safonau addysg cyfrwng Cymraeg. Er bod y mecanwaith hwn wedi'i dderbyn gan yr awdurdodau lleol, mae'n rhy gynnar i farnu effaith y Cynlluniau, yn enwedig gan fod cymeradwyaeth gychwynnol y Cynlluniau Strategol ac, yn dilyn hynny, y Cynlluniau diwygiedig, wedi golygu addasu sylweddol.

Yn erbyn y cefndir cyffredinol hwn, mae Gweinidogion Cymru'n croesawu Adroddiad y Pwyllgor fel hwb pellach i'r drafodaeth barhaus gydag awdurdodau lleol ac eraill am y ffyrdd y dylid datblygu a chryfhau'r Cynlluniau Strategol. Tra bo Gweinidogion Cymru'n fodlon derbyn y mwyafrif o argymhellion y Pwyllgor (yn llawn neu mewn egwyddor) nid yw'n gwbl glir, mewn rhai achosion, bod tystiolaeth gref a darbwyllol i'w cefnogi. Efallai yr hoffai'r Pwyllgor ystyried y ffaith y gallai diffyg unrhyw argymhellion sydd wedi'u hanelu'n benodol at awdurdodau lleol fod yn gyfle a gollwyd.

Rwyf wedi gosod fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

### **Ceir ymatebion manwl i argymhellion yr Adroddiad isod:**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

A1: Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod targedau'r Strategaeth yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynlluniau Strategol a bod yn fwy cadarn wrth gymeradwyo'r Cynlluniau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu uchelgais Llywodraeth Cymru

#### **Ymateb: Derbyn**

Er bod Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol osod targedau yn ei Gynllun Strategol, dylid deall bod rhaid i'r cyfryw dargedau adlewyrchu amgylchiadau penodol pob awdurdod unigol. Er enghraifft, byddai angen i awdurdod lleol sydd â chanran isel iawn o blant 7 oed mewn addysg cyfrwng Cymraeg - dan 10% dyweder ym mlwyddyn sylfaen 2009 - ehangu'r ddarpariaeth ar raddfa na fyddai'n debygol o gael ei chyflawni pe bai disgwyl iddo gwrdd â'r targed o 25% yn 2015. Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn bod rhaid i'w asesiad o'r Cynlluniau Strategol fod yn gadarn - ac mae'n credu bod hynny'n wir hyd yma. Mae hefyd yn credu y byddai gorfodi targedau nad ydynt yn cydnabod amgylchiadau penodol unrhyw awdurdod yn ddigonol, a'r hyn sy'n realistig yn yr amgylchiadau hynny, yn ddim mwy na ffigurau mympwyol nad oes modd eu cyflawni.

Dylid nodi bod yr adroddiad diweddaraf ar y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn nodi er bod canran y plant 7 oed mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn 22.2% yn 2014, bod dros 1,000 yn fwy o ddysgwyr mewn darpariaeth o'r fath o'i gymharu â 2010, y ffigur uchaf ers 2004. Bydd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi nad yw'r ffigur canran, o'i weld ar ei ben ei hun, o reidrwydd yn adrodd y stori lawn gan ei bod yn bosibl i'r niferoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg godi ond i'r ganran gwmpo oherwydd bod maint y garfan gyffredinol o blant 7 oed wedi codi.

#### **Goblygiadau Ariannol: Dim**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

A2: Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro sut mae'n bwriadu gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i gyflawni ei Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

### **Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol i gyflenwi'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae'r Strategaeth a'r Cynlluniau Strategol yn cyd-fynd yn agos ac mae'r cyfrifoldeb statudol am lawer o'r hyn sydd i'w gynnwys yn y Cynlluniau Strategol yn gorwedd gydag awdurdodau lleol. Ni fyddai'n briodol i'r Gweinidogion ymyrryd yn uniongyrchol mewn rhai meysydd e.e. cynllunio llefydd ysgol, fodd bynnag ar yr un pryd mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau statudol i'w hymarfer mewn perthynas â'r Cynlluniau pan gânt eu cyflwyno. Mae'r ddau ffactor hyn yn anochel yn siapio natur y bartneriaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi hwyluso'r gwaith o ffurfio'r Cynlluniau Strategol, o ran cynnwys a phroses, mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013;
- canllawiau statudol dan adran 87 Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013;
- adborth ysgrifenedig manwl ar y Cynlluniau unigol;
- cyfarfodydd gyda swyddogion pob awdurdod lleol a gofnodir yn ffurfiol;
- gweithdai blynyddol;
- cyfarfodydd ad hoc ar faterion penodol yn gysylltiedig â'r Cynlluniau Strategol ar gais neu wedi'u symbylu gan Lywodraeth Cymru

Dros y 12 mis diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu'n ôl o gyfarfodydd rheolaidd yn y gred bod awdurdodau lleol bellach yn ddigon gwybodus a phrofiadol o ran proses, cynnwys a disgwyliadau mewn perthynas â'r Cynlluniau Strategol. Fodd bynnag, yn dilyn asesiad o'r Cynlluniau Strategol a adolygwyd yn fwyaf diweddar, ac wrth baratoi at y Cynlluniau tair blynedd llawn nesaf ar gyfer blynyddoedd 2017 - 2020 byddwn yn ystyried cynnal cyfres o gyfarfodydd wedi'u targedu gyda rhai awdurdodau lleol yn ystod 2016 a thu hwnt. Yn ogystal, bydd cyfarfodydd ad-hoc gydag awdurdodau lleol unigol i drafod materion yn gysylltiedig â'r Cynlluniau Strategol yn benodol yn parhau.

### **Goblygiadau Ariannol: Dim**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

A3: Dylai'r Gweinidog egluro sut y bydd argymhellion adolygiad Donaldson yn mynd i'r afael â'r amrywiad yn neilliannau ieithyddol y gwahanol fathau o ddarpariaeth.

### **Ymateb: Derbyn**

Ym mis Hydref 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes*, cynllun i weithredu ar argymhellion yr Athro Graham Donaldson. Mae'r cynllun hwn yn gosod llinell amser lefel uchel ar gyfer y cwricwlwm newydd y bydd ysgolion a lleoliadau yn ei addysgu o 2021.

Gan weithio gydag arbenigwyr o Gymru ac arbenigwyr rhyngwladol, bydd yr Ysgolion Arloesi sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r cwricwlwm yn flaenllaw wrth gynllunio'r trefniadau cwricwlwm ac asesu newydd i Gymru. Bydd yr Ysgolion Arloesi hyn yn gweithio fel rhan o bartneriaeth Cymru gyfan fydd yn cynnwys arbenigwyr cwricwlwm ac asesu a rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys cyflogwyr, y sectorau addysg uwch a phellach ac Estyn.

Mae Ysgolion Arloesi wedi'u dethol ar draws Cymru gan gynrychioli amrywiaeth o wahanol ysgolion gan gynnwys lleoliadau gwledig a threfol; ysgolion dwyieithog, cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg; ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig; ysgolion o natur grefyddol ac amrywiol o ran maint.

Yn ystod cam cyntaf eu gwaith, bydd yr Ysgolion Arloesi sy'n arwain ar ddatblygu'r cwricwlwm yn canolbwyntio ar gynllunio strwythur y cwricwlwm newydd cyn troi, yn ddiweddarach yn 2016, at ddatblygu'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad gan gynnwys Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Mae'r Athro Donaldson yn gwneud argymhellion penodol mewn perthynas â'r Gymraeg yn Dyfodol Llwyddiannus gan gynnwys adnewyddu'r ffocws ar ddysgu Cymraeg yn bennaf fel modd i gyfathrebu (yn enwedig cyfathrebu a dealltwriaeth lafar) yn ogystal â chynnydd yn y Gymraeg tuag at gymhwysedd trafodol yn 16 oed. Bydd yr argymhellion hyn yn arwain yr Ysgolion Arloesi sydd ag arbenigedd pwnc-benodol a fydd yn gweithio gydag arbenigwyr i gynllunio'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn gyfan. Wrth ddatblygu'r Maes Dysgu a Phrofiad hwn, bydd amrywiol faterion yn cael eu hystyried er mwyn sicrhau bod holl blant a phobl ifanc Cymru'n cael y cyfle i ddysgu'n llwyddiannus a gwneud cynnydd yn Gymraeg. Bydd yr Ysgolion Arloesi sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r cwricwlwm hefyd yn cydweithio'n agos gyda'r rheini sy'n canolbwyntio ar y Fargen Newydd i'r Gweithlu Addysg i sicrhau bod gan ein proffesiwn dysgu'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r nod hwn.

Nod Llywodraeth Cymru yw y bydd pawb yn gallu defnyddio eu Cymraeg gyda balchder a hyder, beth bynnag eu gallu. Bydd y cwricwlwm newydd yn caniatáu i ddysgwyr wneud gwell cynnydd at gyflawni hyfedredd beth bynnag eu cefndir ac ym mha ran bynnag o Gymru maen nhw'n mynychu'r ysgol.

Yn y cyfamser tra bo'r cwricwlwm newydd yn cael ei ddatblygu, bydd Llywodraeth Cymru'n cydweithio â'r Consortia rhanbarthol ac eraill i sicrhau bod ysgolion a dysgwyr sy'n dilyn y rhaglen astudio statudol Cymraeg Ail Iaith yn gallu manteisio ar well cefnogaeth i ddysgu Cymraeg. Bydd hyn yn cynnwys cymorth rhwng ysgolion a'i gilydd, dysgu digidol, hwyluso darpariaeth ehangach o brofiadau Cymraeg y tu allan i'r dosbarth, yn ogystal â hybu manteision dysgu Cymraeg a datblygu symbyliad integredig dysgwyr. Byddwn yn ceisio gwella'r cymorth i gyfoethogi sgiliau a gwybodaeth athrawon er mwyn sicrhau bod deilliannau dysgwyr yn y Gymraeg yn gwella a bod ein hysgolion mewn sefyllfa well i gofleidio'r cwricwlwm newydd.

**Goblygiadau Ariannol: Dim.** Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau cyfredol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

A4: Dylai'r Gweinidog adolygu a chyhoeddi canllawiau newydd ar ddiffiniadau o ddarpariaeth a chategoreiddio ieithyddol ysgolion.

### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn cynnwys ymrwymiad i "adolygu effeithiolrwydd canllawiau LICC *Diffinio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (2007)*". Mae gwaith paratoadol wedi dechrau. Bydd gweithredu'r Argymhelliaid hwn yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad.

**Goblygiadau Ariannol: Dim.** Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau cyfredol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

A5: Dylai'r Gweinidog adolygu'r broses ar gyfer newid categori ysgol, gyda'r nod o'i symleiddio.

### **Ymateb: Gwrthod**

Caiff gweithrediad pob deddfwriaeth, gan gynnwys Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ei fonitro i asesu a yw'n gweithio yn ôl y bwriad. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw arwydd fod angen symleiddio'r broses ar gyfer newid categori ysgol. Mae'r ddeddfwriaeth ddiwygiedig wedi darparu fframwaith clir sy'n golygu y gellir gweithredu cynigion ar gyfer newid mewn modd amserol, gan ganiatáu i bobl leol fynegi eu barn. Mae rhai awdurdodau lleol wedi gwneud penderfyniadau terfynol am gynigion statudol o fewn 5 mis yn unig ar ôl dechrau ymgynghori hyd yn oed pan gafwyd gwrthwynebiad. Mae hyn yn welliant sylweddol ar y llinellau amser cyffredin dan y ddeddfwriaeth flaenorol pan oedd angen cynnwys Gweinidogion mewn penderfyniadau ar gynigion lle'r oedd anghytuno. Mae angen i awdurdodau lleol ystyried a yw'r prosesau mewnol a sefydlwyd ganddynt ar gyfer gwneud penderfyniadau yn cydymffurfio â'r gyfraith, ac yn cefnogi cynnydd priodol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

A6: Dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau ag awdurdodau lleol ynghylch amserlenni a threfniadau ar gyfer cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar gynnydd Cynlluniau Strategol

### **Ymateb: Gwrthod**

Ystyriwyd y posibilrwydd o'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio a chyhoeddi adroddiadau blynyddol yn ystod cyfnod drafftio Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 ac fe'i gwrthodwyd yn bennaf oherwydd y byddai'n gosod baich arall ar

awdurdodau lleol sydd eisoes yn gorfod adolygu eu Cynlluniau'n flynyddol, ymgynghori ar fersiynau diwygiedig a chyhoeddi'r Cynllun cymeradwy.

Roedd y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) / Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) yn nodi eu bod yn fodlon â'r trefniadau adrodd cyfredol:

“Mae'r trefniadau'n addas ac yn benodol, ar y cyfan. Mae'r system monitro ac adrodd yn sicrhau bod cynlluniau'n gyfredol ac yn benodol, gan annog pob awdurdod lleol ganolbwyntio arnynt yn barhaus.”

Roedd yn ymddangos fod y dystiolaeth lafar ar y pwynt hwn, a gyflwynwyd ar 2 Gorffennaf, yn ymwneud yn benodol â gallu Sir Gaerfyrddin i unio adroddiad. Nid yw Llywodraeth Cymru'n ymwybodol fod yr holl awdurdodau lleol yn rhannu'r un farn.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

A7: Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi gwybodaeth am ei rôl yn cymeradwyo Cynlluniau Strategol, gan gynnwys manylion am ei hymateb i Gynlluniau Strategol pob awdurdod lleol a, phan fo'n briodol, y rhesymau pam y cafodd Cynllun Strategol ei gyfeirio yn ôl at awdurdod lleol i'w addasu, a'r camau a gymerwyd gan awdurdod lleol o ganlyniad i hynny.

### **Ymateb: Gwrthod**

Mae rôl Gweinidogion Cymru wedi'i gosod yn glir yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013; cymeradwyo cynllun, ei gymeradwyo gydag addasiadau neu ei wrthod a pharatoi Cynllun arall sydd i'w drin fel cynllun cymeradwy'r awdurdod. Os yw Gweinidogion yn cymeradwyo gydag addasiadau neu'n gwrthod, rhaid ymgynghori â'r awdurdod lleol. Diddordeb cyhoeddus cyfyngedig, os o gwbl, sydd i'r trefniadau gweinyddol cysylltiedig sy'n sail i weithredu'r swyddogaethau hyn. Rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori mewn perthynas â Chynllun Strategol newydd neu ddiwygiedig cyn ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo er mwyn cynnig cyfle i'r sawl sydd â diddordeb fynegi barn ar y drafft.

O ran ail ran Argymhelliad 7, sef cyhoeddi ymateb Llywodraeth Cymru i awdurdod lleol ac unrhyw ohebiaeth ddilynol, nid yw Llywodraeth Cymru wedi'i pherswadio bod hyn yn angenrheidiol nac yn briodol ar sail reolaidd. Gan fod rhaid i awdurdod lleol gyhoeddi ei Gynllun Strategol cymeradwy, bydd cwmpas yr addasiadau (os oes rhai) yn amlwg fel rhan o'r broses hon.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

A8: Dylai Llywodraeth Cymru fod yn gliriach gydag awdurdodau lleol ynghylch ei disgwyliadau mewn perthynas â hyrwyddo twf addysg cyfrwng Cymraeg fel bod pob awdurdod lleol yn ymrwmo i uchelgeisiau Llywodraeth Cymru.

### **Ymateb: Derbyn**



Mae Llywodraeth Cymru'n credu bod modd cyflawni'r argymhelliad hwn fel rhan o'i thrafodaeth barhaus gydag awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae'n cysylltu'n agos ag Argymhellion 9 a 10, a cheir eglurhad pellach ar safbwynt y Llywodraeth i'r materion cyd-gysylltiedig hyn yn yr ymatebion hynny.

**Goblygiadau Ariannol: Dim.** Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau cyfredol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

A9: Cyn iteriad nesaf y Cynlluniau Strategol, dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r prosesau ar gyfer asesu'r galw er mwyn sicrhau eu bod yn fwy cadarn. Dylai prosesau gynnwys darpariaeth i ymgynghori â phlant a phobl ifanc, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 eisoes yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, mewn rhai amgylchiadau rhagnodedig, gynnal asesiad o addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd y pwerau hyn ar gael i Weinidogion Cymru o 2017.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gosod yr wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn asesiad o'r fath gan gynnwys y chwe chwestiwn craidd sydd i'w gofyn a'r wybodaeth ategol i gyd-fynd â nhw. Cyn y bydd y swyddogaeth i fynnu bod awdurdod lleol yn cynnal asesiad o addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i Weinidogion Cymru, bydd y Llywodraeth yn diweddarau ac yn cyhoeddi'r canllawiau ymarfer da a baratowyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg gynt yn 2009. Bydd y ddogfen hon yn ganllaw dan adran 87(4) Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 y bydd awdurdodau lleol yn gorfod ei ddilyn. Bydd Llywodraeth Cymru'n adolygu'r prosesau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i fesur galw yn barhaus, ac yn ystyried pwerau galluogi pellach os bydd angen.

**Goblygiadau Ariannol: Dim.** Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau cyfredol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

A10: Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chyhoeddi strategaeth mewn perthynas â hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o addysg cyfrwng Cymraeg yn genedlaethol ac yn lleol. Dylai'r strategaeth gynnwys adnoddau y gall awdurdodau lleol ac ysgolion eu defnyddio a'u haddasu

### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r ymgyrch marchnata a chyfathrebu tair blynedd a lansiwyd ym mis Tachwedd 2013 yn parhau i godi ymwybyddiaeth am addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ddwyieithog er mwyn i rieni allu ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt. Mae nifer o elfennau wedi'u cyflawni gan gynnwys hysbysebu yn y cyfryngau cenedlaethol a lleol a digwyddiadau lleol. Unwaith y bydd y cyfnod gweithredu cychwynnol o dair blynedd ar ben, bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried cyhoeddi strategaeth ar gyfer y cam gweithredu nesaf.

Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda thair ardal awdurdod lleol sydd â galw isel am addysg cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd. Y tair ardal a dargedwyd oedd Llanelli, Blaenau Gwent a Sir y Fflint. Gan weithio gydag ysgolion lleol a phartneriaid fel Twf, Mentrau Iaith a'r Mudiad Meithrin, rhoddwyd gwybodaeth a chyngor i rieni am addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Yn ogystal â'r ymgyrchoedd lleol rydym ni hefyd wedi:

- hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg mewn pecynnau Dechrau Da i dros 10,000 o rieni
- datblygu gwefan llyw.cymru/cymraeg i arddangos astudiaethau achos, adnoddau, cyngor a digwyddiadau addysg cyfrwng Cymraeg lleol
- peilota sgwrs cyfryngau cymdeithasol fyw am addysg cyfrwng Cymraeg gydag awdurdodau lleol a phartneriaid yn y Fflint
- lansio ap Cymraeg for Kids yn yr Eisteddfod Genedlaethol i annog rhieni i ddysgu Cymraeg gyda'u plentyn
- annog partneriaid, gan gynnwys Twf a Mudiad Meithrin i fabwysiadu brandio a chanllawiau Cymraeg for Kids
- cydweithio gyda chydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru i sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu cyfleu yn yr holl ymgyrchoedd addysg e.e. Mae addysg yn dechrau yn y cartref.

Mae gweithgaredd cyfryngau cymdeithasol drwy dudalennau facebook/ChoiceDewis a gwefan llyw.cymru/cymraeg wedi cefnogi pob ymgyrch a gweithgaredd cyfathrebu.

Dros y flwyddyn nesaf, bydd Llywodraeth Cymru'n parhau â'r gweithgaredd marchnata a chyfathrebu, ac mae eisoes wrthi'n datblygu llyfryn gyda gwybodaeth i rieni ar addysg cyfrwng Cymraeg; adnoddau i awdurdodau lleol eu teilwra a'u defnyddio ar eu gwefannau; a deunyddiau i gynorthwyo rhieni.

**Goblygiadau Ariannol: Dim.** Caiff y costau eu tynnu o gyllidebau cyfredol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

A11: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda llywodraeth leol a rhanddeiliaid i gryfhau rôl fforymau fel eu bod yn fwy effeithiol. Dylai fforymau fod yn agored ac yn gynrychioliadol a dylent adrodd yn ôl yn flynyddol

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Er bod yr holl awdurdodau lleol wedi sefydlu fforwm addysg cyfrwng Cymraeg, nid oes gofyniad statudol arnynt i wneud hynny. Mae'n dilyn felly nad yw Gweinidogion

Cymru mewn sefyllfa i ragnodi'r aelodaeth, y cyfansoddiad na dull gweithredu'r fforymau. Fodd bynnag fel rhan o'i pherthynas barhaus ag awdurdodau lleol bydd Llywodraeth Cymru'n manteisio ar bob cyfle i'w hatgoffa am ein disgwyliadau o ran cyfraniad y fforymau at ddatblygiad a monitro'r Cynlluniau Strategol.

### **Goblygiadau Ariannol: Dim.**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

A12: Dylai Llywodraeth Cymru egluro rôl y consortia rhanbarthol mewn cysylltiad â Chynlluniau Strategol

### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r ddyletswydd statudol i baratoi, cyflwyno a gweithredu Cynlluniau Strategol yn gorwedd gydag awdurdodau lleol. Mae Llywodraeth Cymru'n fodlon i gonsortia lleol chwarae rhan weithredol a chynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni'r dyletswyddau hynny, ac mae eisoes yn rhoi gwerth ar y cyfraniad mae'r consortia wedi'i wneud hyd yma, yn enwedig mewn perthynas â'r agweddau hynny o'r Cynlluniau Strategol sy'n canolbwyntio ar safonau, Deilliannau 3, 4 a 5. Wrth i rôl y consortia, a'u perthynas gyda'u hawdurdodau lleol cyfansoddol, barhau i ddatblygu, byddai Llywodraeth Cymru'n disgwyl gweld eu rôl mewn perthynas â'r Cynlluniau Strategol yn datblygu'n unol â hynny. Fodd bynnag yn y cyfamser mater iddyn nhw yw sut y dylai awdurdodau lleol a chonsortia ddatblygu'r berthynas hon yng nghyd-destun y Cynlluniau Strategol.

### **Goblygiadau Ariannol: Dim.**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

A13: Dylai'r Gweinidog ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddo o dan ddeddfwriaeth bresennol i ymyrryd pan fydd awdurdodau lleol yn methu â chyflawni eu Cynlluniau Strategol

### **Ymateb: Derbyn**

Mae Gweinidogion Cymru wedi bod, ac yn parhau i fod yn barod i ddefnyddio eu pwerau i ymyrryd ond dim ond pan y byddai'n briodol gwneud hynny. Mae'r pwerau i ymyrryd ar gael pan fo awdurdod lleol wedi methu ag ymarfer ei swyddogaethau addysg, neu wedi eu hymarfer ond wedi gwneud hynny'n afresymol. Nid yw colli targed neu fethu â chyflawni ar ymrwymiad penodol o reidrwydd ynddo'i hun yn achos i ymyrryd. Byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru ystyried yr holl amgylchiadau, gan gynnwys y pwysau o gyfeiriadau gwahanol ar adnoddau cyfyngedig awdurdodau lleol. Mae'n bosibl y byddai amgylchiadau nad oedd modd eu rhagweld yn achosi i awdurdod lleol fethu â chyflawni ei ymrwymadau i gyd. Rhaid seilio unrhyw benderfyniad p'un a yw hynny'n dderbyniol neu'n gyfiawn ar archwiliad manwl o'r holl amgylchiadau ac a all yr awdurdod lleol ddangos iddo weithredu'n rhesymol yn yr amgylchiadau hynny.

**Goblygiadau Ariannol: Dim.** Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau cyfredol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

A14: Dylai Llywodraeth Cymru egluro hefyd beth yw'r rhesymau am y diffyg rhwng canran y lleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael o dan y rhaglen Dechrau'n Deg a'i tharged i 25 y cant o blant saith oed gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2015 (a 30 y cant erbyn 2020). Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn mynd i'r afael â'r diffyg.

### **Ymateb: Gwrthod**

Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn rhan annatod o Dechrau'n Deg ac mae Llywodraeth Cymru wastad wedi'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymateb i ddewis rhieni a chyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg lle bo galw. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gosod unrhyw dargedau penodol ar gyfer darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg Dechrau'n Deg. Fodd bynnag mae canllawiau strategol Dechrau'n Deg yn parhau i'w gwneud yn glir bod rhaid i awdurdodau lleol roi trefniadau ar waith i ddiwallu dewis rhieni o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg a/neu ddwyieithog. Rhaid i'r holl awdurdodau lleol gynnwys eu trefniadau ar gyfer darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg a/neu ddwyieithog yn eu cynlluniau Dechrau'n Deg, os yw rhieni wedi mynegi dewis. Mae Llywodraeth Cymru'n annog awdurdodau lleol i sicrhau bod trefniadau ar waith i ddiwallu'r gofyn gan rieni am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a/neu ddwyieithog a mynd ati'n rhagweithiol i gynnig darpariaeth Gymraeg.

Rhaglen blynyddoedd cynnar o ofal plant i blant rhwng 0 a 4 oed yw Dechrau'n Deg. Yn 2 i 3 oed caiff plant gynnig gofal plant rhan amser am ddim. Mae targedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn ymwneud â phlant 7 oed. Felly mae'r rhain yn ddau fater ar wahân. Ni fyddai cynnydd o ran dewis rhieni a darpariaeth cyfrwng Cymraeg Dechrau'n Deg dilynol yn effeithio'n sylweddol ar allu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei tharged o 25% o blant 7 oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

A15: Llywodraeth Cymru i amlinellu sut y mae'n bwriadu sicrhau bod trefniadau o ran trafndiaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ddwyieithog yn cefnogi cyrraedd targedau ei Strategaeth.

### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Caiff trefniadau trafndiaeth ysgolion eu rheoli drwy statud. Dan Fesur Cludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2008, mae gan ddysgwr yr hawl i gludiant am ddim i'r ysgol, boed gyfrwng Cymraeg, dwyieithog neu gyfrwng Saesneg, os yw'r awdurdod lleol yn ystyried mai'r ysgol honno yw'r ysgol addas agosaf i'r dysgwyr, a bod y dysgwr yn bodloni'r meini prawf pellter penodol ar gyfer ei oedran. Mae gan ddisgyblion

cynradd sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol addas agosaf hawl i gludiant am ddim tra bo gan ddisgyblion uwchradd sy'n byw 3 milltir neu ymhellach o'r ysgol addas agosaf hawl i gludiant am ddim. Mewn achosion lle nad yw dysgwyr yn mynychu'r ysgol addas agosaf, gall awdurdodau lleol ddefnyddio eu disgrisiwn i ddarparu cludiant i ysgolion cyfrwng Cymraeg beth bynnag yw'r meini prawf pellter er mwyn hybu mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr ôl-16 yn ddewisol. Nid oes rhaid i awdurdodau lleol ei ddarparu am ddim.

Gofynnir i awdurdodau lleol gynnwys datganiad yn eu Cynlluniau Strategol yn dangos sut maen nhw'n "...cyflawni'r ddyletswydd statudol dan adran 10 Mesur Cludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2008 i hybu mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg." Dywed awdurdodau eu bod yn cydymffurfio â holl agweddau'r Mesur h.y. eu bod yn darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i'r disgyblion hynny o oed ysgol statudol sy'n byw y tu hwnt i'r pellter statudol – 2 filltir i ddisgyblion cynradd a 3 milltir i ddisgyblion uwchradd. Mae rhai hefyd yn darparu cludiant am ddim ar sail ddewisol i ddisgyblion ôl-16. Mae awdurdodau lleol wedi cael eu hatgoffa o'r ddyletswydd statudol dan adran 10.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi £5m ar gyfer cynllun teithio gyda gostyngiad o 1/3 i ddysgwyr 16, 17 ac 18 oed sy'n mynychu hyfforddiant a neu waith yn 2015-16.

Mae trefniadau ar gyfer teithio o gartref i'r ysgol wedi'u gosod yn y Mesur Cludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2008, a Teithio gan Ddysgwyr Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol (Mehefin 2014) sy'n cydfynd â'r mesur. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i newid y sefyllfa statudol. Ni ellir defnyddio Cynlluniau Strategol i newid y gofynion statudol drwy leihau'r meini prawf pellter neu wneud cludiant dewisol ôl-16 yn orfodol.

### **Goblygiadau Ariannol: Dim**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

A16: Llywodraeth Cymru i amlinellu sut y bydd yn mynd i'r afael â darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a p'un a fyddai'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd i ddod yn gyfrwng priodol i wneud hynny.

### **Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd cefnogi'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yw sicrhau bod darpariaeth addysgol ddigonol i'r holl ddysgwyr gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae trefniadau eisoes yn bodoli i awdurdodau lleol asesu a gosod eu strategaeth ar gyfer gwella addysg cyfrwng Cymraeg drwy'r Cynlluniau Strategol.

Yn dilyn casgliad dwy astudiaeth feirniadol i ddeall anghenion sgiliau'r gweithlu addysgu anghenion dysgu ychwanegol yn well; ac asesu gallu'r gwasanaethau cymorth arbenigol, mae gwaith yn cael ei wneud i wella'r cymorth sydd ar gael i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Drwy ein gwaith gydag Ysgolion Arloesi'r Fargen Newydd, rydym ni'n sicrhau y bydd ein gweithlu'n datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gynnig gwell cefnogaeth i bob dysgwr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rhai mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal rydym ni'n cydweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu system cynllunio gweithlu cenedlaethol ar gyfer y gwasanaethau cymorth anghenion dysgu ychwanegol arbenigol er mwyn gwella gallu'r gwasanaethau i gefnogi dysgwyr ac ysgolion ar draws Cymru. Bydd system cynllunio'r gweithlu yn ystyried gallu iaith Gymraeg y gwasanaethau cymorth arbenigol.

Mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol bod nifer o ymatebwyr i'n hymgyngoriad diweddar ar y Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) wedi awgrymu y dylai'r Bil gynnwys cyfeiriad penodol at argaeledd darpariaeth a gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn wir, cododd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yr union fater pan fu'n craffu'r Bil drafft cyn y broses ddeddfu. Caiff y pwyntiau hyn eu hystyried fel rhan o'r dadansoddiad cyffredinol o'r ymgynghoriad a chaiff barn ei ffurfio arnynt maes o law. Ni fyddai'n briodol achub y blaen ar ganlyniad y dadansoddiad hwnnw drwy wneud sylw ar hyn o bryd. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn dymuno ystyried pa rôl y gallai'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol arfaethedig ei chwarae yn hyn o beth.

**Goblygiadau Ariannol: Dim.** Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau cyfredol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

A17: Dylai Llywodraeth Cymru ailystyried ei strategaethau addysg cyfrwng Cymraeg gyda'r nod o sicrhau y caiff pwysigrwydd addysg ôl-16 ei adlewyrchu yn y strategaeth ac yng Nghynlluniau Strategol awdurdodau lleol

### **Ymateb: Gwrthod**

Mae'r argymhelliad yn mynd yn ehangach na'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac yn cyfeirio at "strategaethau addysg cyfrwng Cymraeg". Mae'r testun sy'n cyd-fynd (paragraff 1.43 o Adroddiad y Pwyllgor ar dudalen 52) yn awgrymu y gallai'r Pwyllgor fod wedi bwriadu argymhell y dylid ehangu'r Cynlluniau Strategol i gwmpasu darpariaeth addysg bellach. Os felly, byddai angen newid yn y ddeddfwriaeth. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio Cynlluniau Strategol. Caiff darpariaeth addysg bellach ei chyflwyno gan golegau a sefydliadau ar wahân i awdurdodau lleol nad ydynt yn ddarostyngedig i ofynion y Ddeddf.

Mae'n ofynnol eisoes i awdurdodau lleol nodi yn eu Cynlluniau Strategol sut y maent yn cynnig cynyddu'r ganran o ddysgwyr 16 -19 oed sy'n astudio pynciau drwy

gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion. Mae sefydliadau addysg bellach y tu hwnt i gwmpas y Cynlluniau Strategol (ar wahân i achosion lle mae awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth drwy'r llwybrau dysgu 14 - 19 i ddarparu cyrsiau cydweithredol yng Nghyfnod Allweddol 4 ac mewn rhai achosion ôl-16).

Ar draws Cymru mae'r nifer o gyrsiau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog sydd ar gael i ddysgwyr ôl-16 yn amrywio o goleg i goleg gan ddibynnu ar natur yr ardal mae'n ei gwasanaethu. Mae rhai colegau wedi datblygu ystod eang o ddarpariaeth sydd ar gael yn ddwyieithog tra bo eraill wedi datblygu rhai cyrsiau a modiwlau mewn meysydd blaenoriaeth fel Gofal Plant, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Hamdden a Thwristiaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo colegau addysg bellach gyda grant tair blynedd ar gyfer Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd i sefydlu strwythurau a chymorth ymarferol i diwtoriaid er mwyn datblygu modiwlau a chysiau cyfrwng Cymraeg. Mae adroddiadau blynyddol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn dangos cynnydd graddol yn y nifer o weithgareddau dysgu a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog mewn colegau addysg bellach.

Mae argaeledd y ddarpariaeth mewn sefydliadau addysg bellach yn cael ei fonitro drwy'r broses cynllunio a chyllido blynyddol sy'n golygu bod colegau'n gorfod nodi pa rai o'u cyrsiau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'n ddwyieithog. Mae'r nifer sy'n dewis y ddarpariaeth yn cael ei fonitro drwy gategori penodol yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru sy'n bwydo i adroddiadau blynyddol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.